Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch DDAU gwestiwn

---

1. Sut mae etholiad arlywyddol 2024 yr Unol Daleithiau wedi effeithio ar wleidyddiaeth y byd?
2. Sut mae'r rhyfel yn erbyn Wcráin wedi cael effaith ar ddiogelwch (*security*) yn Ewrop?
3. Beth yw'r materion diogelwch pwysicaf yng ngwleidyddiaeth y byd y dyddiau hyn?
4. A yw cymorth tramor o fudd i'r rhai sy'n ei dderbyn?
5. A yw diwygio'r Cenhedloedd Unedig yn flaenoriaeth frys i wleidyddiaeth y byd?
6. Beth all y byd ei wneud i hyrwyddo sefydlogrwydd yn y Dwyrain Canol?
7. Sut mae Tsieina yn defnyddio ei grym yn y byd?
8. A yw'r byd yn fwy parod ar gyfer argyfwng byd-eang nawr nag yr oedd cyn pandemig COVID-19?
9. Pam mae hi mor anodd cyflawni cyfiawnder byd-eang?
10. Beth sydd angen digwydd er mwyn sicrhau bod gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth fyd-eang?